

**LLAWLYFR 2022**  
F7.1

# **CYMRU FYD-EANG DARGANFOD**

## **Llawlyfr Cymru Fyd-eang Darganfod f7. Crynodeb o'r newidiadau:**

Drwy'r ddogfen gyfan, lle bo angen, rydym yn gwahaniaethu rhwng symudedd Rhithwir a symudedd Wyneb yn Wyneb. Lle nad oes angen gwahaniaethu (ee lle mae'r wybodaeth yn berthnasol i weithgarwch symudedd Wyneb yn Wyneb a Rhithwir fel ei gilydd) rydym yn defnyddio'r term 'symudedd' yn unig.

### **Adran 2: Gweithgarwch cymwys**

Ychwanegwyd at destun yr adran yma i gynnwys gwybodaeth am Symudeddau Rhithwir. ('Ers 2021 gall myfyrwyr fanteisio ar gyfleoedd symudedd rhithwir. Mae gofyn i gyfleoedd symudedd rhithwir bara am gyfnod arwyddocaol - dim byrrach na deg diwrnod gwaith hyd at uchafswm o wyth wythnos waith. Gellir bod yn hyblyg am hyn os cyflwynir cais i'r British Council cyn gwneud y trefniant. Ni chaniateir i sefydliadau wario mwy na chyfanswm o £15,000 ar gyfleoedd symudedd rhithwir.') )

### **Adran 3: Cyfnod y gweithgarwch**

Mae'r dyddiadau wedi eu newid i adlewyrchu blwyddyn weithgarwch newydd (1 Awst 2021 – 31 Awst 2022). Mae'r gofyniad i gynnal 50% o'r symudedd o fewn y cyfnod y cylchdro ariannu wedi cael ei ddileu ac yn ei le nodir bod yn rhaid i bob symudedd orffen erbyn 31 Awst 2022 – i roi digon o amser i gyflwyno adroddiad terfynol mewn da bryd. Mae Tabl 1 wedi cael ei ddiweddarau i ddangos y dyddiadau newydd hyn yn ogystal â'r polisi newydd fod yn rhaid i symudeddau orffen erbyn 31 Awst 2022.

### **Adran 4: Grantiau i fyfyrwyr**

Rydym wedi ychwanegu testun am Symudeddau Rhithwir ('Telir grantiau ar gyfer gweithgarwch symudedd rhithwir fel un cyfandaliad - hyd at uchafswm o £1000 fesul myfyrwr fesul cyfle symudedd – i dalu costau'r rhaglen symudedd rhithwir yn unig. Bydd angen cael caniatâd ymlaen llaw gan y British Council cyn y gellir defnyddio arian rhaglen Cymru Fyd-eang Darganfod ar gyfer unrhyw gostau cysylltiedig eraill - fel offer neu feddalwedd.). Mae'r trefniadau ar gyfer talu Costau Byw a Theithio wedi cael eu haddasu gan fod y rhestr o gyrchwlodydd cymwys wedi cael ei ehangu i gynnwys y byd cyfan.

Mae'r trefniadau ar gyfer talu Costau Byw a Theithio wedi cael eu haddasu gan fod y rhestr o gyrchwlodydd cymwys wedi cael ei ehangu i gynnwys y byd cyfan.

Mae'r rhestr ar gyfer Costau Byw wedi cael ei newid o bedwar band i ddau. Yn Band 1 rhestrir gwledydd sydd â chostau canolig-uchel, ac yn Band 2 rhestrir y gwledydd sydd â chostau is. Rydym yn rhestru'r gwledydd sydd yn y ddau fand yn Atodiad 7.

Bellach mae'n rhaid seilio'r Costau Teithio ar bellter y cyrchwlodydd o Gymru. Defnyddir yr un system gan Gynllun Turing. Cyfrifir pellter mewn KM a gan ddefnyddio Google Maps. Mae pedwar grŵp o bellteroedd a chyfradd grant teithio cyfatebol ar gyfer pob grŵp. Bwriedir i'r grant fod yn ddigon hael i dalu am holl gostau pob agwedd o'r teithio. Os yw'r costau teithio ar gyfer cyrchwlad benodol yn fwy na'r grant a ddangosir, cysylltwch â'r British Council gyda dadansoddiad o'r costau.

### **Adran 7: Ceisiadau**

Mae'r adran hon wedi cael ei diweddarau i nodi 'Oherwydd y cyfyngiadau ar deithio rhyngwladol yn 2020, mae ceisiadau wedi cael eu cario drosodd i 2021 ac felly nid oes disgwyl i sefydliadau ail-geisio am gyllid. Mae'r ceisiadau a gyflwynwyd gennych yn 2020 yn ddilys ar gyfer 2021.'

### **Adran 9: Dyrannu'r cyllid**

Mae hwn wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r systemau newydd ar gyfer cyfrifo'r costau Byw a Theithio.

### **Adran 10: Adroddiadau'r darparwyr addysg uwch**

Rydym wedi ychwanegu gofyniad i sefydliadau gymryd rhan mewn ymgynghoriadau gyda'r British

Council a'n partneriaid monitro a gwerthuso o bryd i'w gilydd.

Ychwanegwyd testun wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu cario gweithgarwch 2021 drosodd. ('Bydd dyraniad cyntaf yr arian grant yn cael ei adolygu ar y pwynt yma - ar sail yr adroddiadau interim a gyflwynir gan y darparwyr addysg uwch. Mae'n bosib y gwneir taliad pellach o arian grant ar y pwynt yma. Hefyd, mae'n bosib y caiff arian ei adennill os yw cost y gweithgarwch yn llai na'r swm a nodwyd wrth gyflwyno'r cais. Bydd newidiadau i Gytundebau Grant, taliadau ac adenillion yn cael eu gwneud fel bo'r angen.')

Mae'r dyddiad cau ar gyfer yr adroddiad interim wedi cael ei ddiweddaru i: Dydd Mawrth 1af o Fawrth 2022. Mae'r dyddiad ar gyfer cyflwyno'r adroddiad terfynol wedi cael ei ddiweddaru i: Dydd Llun 12fed o Fedi 2022.

### **Adran 13: Adroddiadau'r myfyrwyr**

Mae'r dyddiadau wedi cael eu newid i adlewyrchu blwyddyn weithgarwch newydd ac rydym wedi ychwanegu testun sy'n rhoi mandad i fyfyrwyr gyflawni eu harolygon cyn cychwyn symudedd ac wedi cyflawni symudedd yn unol â gofynion y cytundebau grantiau myfyrwyr newydd a ddanfonwyd gennym ar 24 Mai 2021 (mae'r cytundebau grant yma'n rhan o'r ddogfen hon bellach – yn yr Atodiad)

### **Adran 15: Taliadau ac adenillion**

Mae'r wybodaeth yn yr adran hon wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r flwyddyn a gariwyd drosodd, fel a ganlyn: ('Mae'r taliadau grant cyntaf wedi eu gwneud eisoes a bydd gwerth terfynol y taliad Grant a wneir ym mis Mawrth 2022 yn cael ei bennu gan y British Council ar sail deilliannau'r Adroddiad Interim. Os yw gwerth/cost gweithgarwch cymwys y Derbynnydd yn is na swm y Grant, byddwn yn codi archeb adennill ar gyfer unrhyw arian Grant na wariwyd. Bydd gofyn i'r Derbynnydd ddychwelyd y swm yna o fewn 30 diwrnod.

### **Adran 16: Taliadau i fyfyrwyr**

Ychwanegwyd testun am symudeddau rhithwir: ('Bydd grantiau ar gyfer gweithgarwch symudedd rhithwir yn cael eu talu mewn un taliad hyd at gyfanswm o £1000 fesul myfyriwr fesul gweithgarwch symudedd – i dalu am gostau'r rhaglen symudedd rhithwir yn unig. Bydd angen cael caniatâd ymlaen llaw gan y British Council cyn y gellir defnyddio arian rhaglen Cymru Fyd-eang Darganfod ar gyfer unrhyw gostau cysylltiedig eraill - fel offer neu feddalwedd.

### **Adran 19: Archwilio, monitro a gwerthuso**

Ychwanegwyd llinell i nodi y byddwn yn rhannu data di-enw gyda Wavehill Ltd, ein partner monitro a gwerthuso

Ychwanegwyd y llinell: ('Gellir rhanu'r rhifau adnabod unigryw'r myfyrwyr (HUSID) gyda'r Asiantaeth ar gyfer Ystadegau Addysg Uwch (HESA) i alluogi casglu data ehangu cyfranogiad dienw am gohort y symudedd.')

Addaswyd y paragraff olaf i nodi y byddwn yn darparu fersiwn wedi'i ddiwygio o'r offeryn adrodd yn Hydref 2021

## **Section 20: Apelio**

Tynnwyd y llinell yn sôn am apelio yn erbyn ceisiadau aflwyddiannus gan nad yw hyn yn berthnasol bellach yn y flwyddyn hon a gariwyd drosodd.

**Atodiad 5:**

Wedi cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r ffaith bod symudeddau rhithwir wedi cael eu hychwanegu. Bellach, mae dau fersiwn o'r 'Cytundeb Grant Symudedd' – un ar gyfer symudedd wyneb yn wyneb a'r llall ar gyfer symudedd rhithwir (Atodiad 6)

Mae Cymal 3.3 yn yr adran 'Cymorth Ariannol' wedi cael ei ddiweddarau. Os nad yw'r cyfranogwr yn gallu cwblhau/gorffen y symudedd oherwydd amgylchiadau eithriadol yna mae'n rhaid i'r sefydliad gysylltu â'r British Council fel y gellir cynnal gwerthusiad i gadarnhau y gellir trin y costau fel rhai na fydd yn cael eu hadfer.

Mae 'Atodiad 1, Erthygl 2' wedi cael ei ddiweddarau hefyd – i nodi bod angen i sefydliadau gysylltu â'r British Council ar gyfer gwerthusiad pan fod 'force majeure' yn golygu na ellir gorffen/cwblhau symudedd.

**Atodiad 6**

Fel y gwelir uchod, ychwanegiadau ar gyfer symudeddau rhithwir.

**Atodiad 7**

Ychwanegwyd yr Atodiad yma i'r ddogfen hon – mae'n dangos y bandiau (rhestrau cyrchwledydd) ar gyfer Costau Byw .

**Llawlyfr Cymru Fyd-eang Darganfod Cymru f6 - Crynodeb o'r newidiadau:**

Atodiad 5. Adran 6: Newidiadau i dempled y cytundeb grant symudedd - yn adran monitro a gwerthuso'r Cyfranogwr. Fel un o amodau derbyn y grant, bydd gofyn i gyfranogwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau monitro a gwerthuso drwy gyflwyno ymatebion i arolygon cyn cychwyn y symudedd ac ar ôl ei gwblhau, a chymryd rhan mewn cyfweiliadau dros y ffôn hefyd. Yn ogystal, mae'n bosib y gall y cyfranogwr dderbyn cais gan y British Council i baratoi a chyflwyno adroddiad terfynol – naill ai yn ystod cyfnod y symudedd neu ychydig wedi ei gwblhau. Os bydd y cyfranogwyr yn methu ateb y gofynion hyn, mae'n bosib y bydd yn rhaid iddynt ad-dalu'r cyfan neu ran o'r cymorth ariannol a dderbyniwyd. Bydd y British Council a Wavehill Cyf yn cysylltu â'r darparwyr addysg uwch o bryd i'w gilydd gyda'r templedi monitro a gwerthuso priodol i'w dosbarthu i'r dysgwyr.

**Llawlyfr Cymru Fyd-eang Darganfod f5 - Crynodeb o'r newidiadau:**

Drwy'r ddogfen gyfan: mae'r cyfeiriadau at 'brifysgolion' wedi cael eu newid i 'ddarparwyr addysg uwch' er mwyn cynnwys colegau sy'n cynnig darpariaeth addysg uwch. Mae cyfeiriadau at 'brifysgol gartref' wedi cael eu newid i 'sefydliad cartref'.

Adran 1: Sefydliadau cymwys. Mae'r rhestr o sefydliadau wedi cael ei diweddarau i gynnwys Grŵp Llandrillo Menai a Grŵp NPTC.

Adran 2: Os yw'r British Council yn teimlo fod gwendidau gan rai o'r gweithgareddau symudedd yr adroddir amdanynt yn yr alwad ariannu gyntaf, bydd canllawiau pellach yn cael eu cyhoeddi i gefnogi'r broses sicrhau ansawdd yn yr ail alwad ariannu.

Adran 2: Ni fydd unrhyw gyfleoedd symudedd sy'n methu bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn cael eu hariannu ac eithrio achosion lle cysylltir â'r British Council ymlaen llaw i sicrhau ein bod yn cymeradwyo'r

symudedd y gwnaethpwyd cais amdano.

#### Adran 3: Cyfnod y gweithgarwch

Newidiwyd y dyddiadau fel eu bod yn cyfeirio at ddyddiadau'r ail gylch ariannu, ac fe gafodd y frawddeg ganlynol ei dileu: Bydd yr ail gylch ariannu yn rhwng 1 Awst 2020 a 31 Gorffennaf 2021, ac mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o bob symudedd unigol ddigwydd yn ystod y cyfnod hwn i fod yn gymwys i gael ei ariannu. Gwneir galwad am geisiadau ar gyfer yr ail gylch ariannu ym mis Mawrth 2020.

#### Adran 4: Grantiau i fyfyrwyr

Ychwanegwyd y canlynol yn unol â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR): Cyfrifoldeb darparwr addysg uwch y myfyriwr yw'r hysbysiad preifatrwydd ar gyfer y Dystysgrif Presenoldeb.

#### Adran 5: Myfyrwyr ag Anghenion Arbennig

Bydd y wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno yn y Cais am gefnogaeth ychwanegol yn cael ei asesu i sicrhau fod grantiau cymorth ychwanegol yn cael eu rhannu mewn modd teg a chyfiawn sy'n diogelu pobl â nodweddion gwarchodedig.

#### Adran 6: Dychwelwyr Cynnar

Ychwanegwyd y frawddeg ganlynol ar gyfer rheoli risg yn sgil Covid-19: Mae'n hanfodol bwysig fod y darparwyr addysg uwch a'r myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y symudedd yn sicrhau fod yr yswiriant angenrheidiol ganddynt.

#### Adran 7: Ceisiadau

Newidiwyd i'r amser gorffennol gan fod yr ail alwad wedi digwydd yn barod.

#### Adran 8: Dethol myfyrwyr

Mae'r cyfeiriadau at yr alwad ariannu gyntaf a galwadau ariannu yn y dyfodol wedi cael eu dileu. Hefyd, mae'r cyfeiriad at ddefnyddio data economaidd-gymdeithasol o adroddiadau i lywio penderfyniadau ariannu mewn cylchoedd ariannu dilynol wedi cael ei ddileu.

#### Adran 9: Dyrannu'r cyllid

Mae'r cyfeiriad at yr alwad ariannu wedi cael ei ddileu.

Gwnaed newidiadau i'r rheolau ar gyfer trosglwyddo arian:

Gall y darparwyr addysg uwch drosglwyddo hyd at 20% o'u gweithgareddau symudedd yng Ngrŵp A i weithgareddau symudedd yng Ngrŵp B neu fel arall. Gwneir asesiad o unrhyw drosglwyddiadau yng nghyfnod yr Adroddiad Terfynol; caiff unrhyw drosglwyddiad ei gymharu â chyllidebau Cytundeb Grant mwyaf diweddar yr alwad yna. Os yw'r darparwyr addysg uwch yn dymuno gwneud trosglwyddiad cyllideb sy'n fwy na 20% fe'u cynghorir i ymgynghori â'r British Council cyn i'r cyfleoedd symudedd dan sylw ddechrau. Nod y British Council fydd bod yn hyblyg lle bo hynny'n bosib wrth ystyried ceisiadau o'r fath.

#### Adran 10: Adroddiadau gan y darparwyr addysg uwch

Mae dyddiad cau'r adroddiad wedi cael ei newid i gyfeirio at ofynion yr ail gylch ariannu.

#### Adran 11: Cytundebau gyda myfyrwyr

Ychwanegwyd y canlynol yn unol â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR):

Mae'r darparwyr addysg uwch yn gweithredu fel Rheolwyr ar gyfer y rhan yma o siwrne'r myfyrwyr ac mae gofyn iddynt ddarparu'r hysbysiadau preifatrwydd perthnasol a sicrhau eu bod yn gwarchod

hawliau'r cyfranogwyr a rhoi sylw i unrhyw geisiadau gan y myfyrwyr am eu hawliau ynghylch y grant.

Adran 12: Diogelwch y cyfranogwyr

Ychwanegwyd y canlynol:

Cynghorir darparwyr addysg uwch i fonitro'r datblygiadau diweddaraf o ran Covid-19 a dilyn y canllawiau teithio sy'n cael eu pennu gan y Swyddfa Dramor a Llywodraeth Cymru bob amser.

Adran 13: Adroddiadau gan fyfyrwyr

Mae'r dyddiadau cau wedi cael eu newid fel a ganlyn:

Bydd gofyn i bob myfyrwr sy'n cymryd rhan gwblhau a chyflwyno adroddiad terfynol cyn **17:00 ddydd Llun 7 Medi 2020** ar gyfer y cylch ariannu cyntaf. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau terfynol gan y myfyrwyr ar gyfer yr ail gylch ariannu yw **17:00 ddydd Llun 6 Medi 2021**.

Ychwanegwyd y testun canlynol:

Yn ogystal â chyflwyno adroddiad terfynol gwahoddir y myfyrwyr i gymryd rhan yn ein prosesau monitro a gwerthuso drwy ymateb i arolygon neu gyfweiliadau ffôn cyn i'r symudedd gychwyn ac ar ôl iddo orffen. Bydd y British Council a Wavehill Ltd yn cysylltu â'r darparwyr addysg uwch o bryd i'w gilydd gyda thempledi monitro a gwerthuso perthnasol

Adran 15: Taliadau ac adenillion

Mae dyddiad y taliad cychwynnol wedi cael ei newid i Awst 2020.

Mae'r geiriad wedi cael ei newid o 'ail daliad' i'r 'taliad olaf' oherwydd y newid yn amserlen daliadau'r ail gylch ariannu. Mae'r newid yn amserlen daliadau'r ail gylch ariannu i dri rhandaliad yn cael ei nodi yn yr adran yma.

Cafodd y frawddeg ganlynol ei hychwanegu:

Bydd unrhyw gyllid sy'n weddill gan y darparwr addysg uwch o'r alwad ariannu gyntaf yn cael ei ddidynnu o'r taliadau a amlinellir uchod.

Adran 17: Cytundebau grant

Rhaid i'r darparwr addysg uwch gadw copi electronig, copi gwreiddiol wedi'i arwyddo (copi caled neu electronig) o'r Cytundeb Grant rhwng y darparwr addysg uwch â'r British Council (gweler Adran 14 'Cadw Cofnodion').

Section 18: Cyfathrebu a Chysylltiadau

Mae'r adran newydd yma'n cynnwys canllawiau cyfathrebu, cysylltu â'r wasg, rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau a hyrwyddo

Adran 19: Archwiliadau, monitro a gwerthuso

Mae'r manylion am bryd y bydd Wavehill yn cysylltu â'r darparwyr addysg uwch wedi newid o 'hydref 2019' i 'o bryd i'w gilydd'

Atodiad – Cytundeb Grant Symudedd

Ychwanegwyd y canlynol:

Yn ogystal â chyflwyno adroddiad terfynol gwahoddir y myfyrwyr i gymryd rhan yn ein prosesau monitro a gwerthuso drwy ymateb i arolygon neu gyfweiliadau ffôn cyn i'r symudedd gychwyn ac wedi iddo orffen. Bydd y British Council a Wavehill Ltd yn cysylltu â'r darparwyr addysg uwch o bryd i'w gilydd gyda thempledi monitro a gwerthuso perthnasol.

**Llawlyfr Cymru Fyd-eang Darganfod f4 – Crynodeb o'r newidiadau ers cyhoeddi'r fersiwn diwethaf (f3)**

Adran 4: Ychwanegwyd yr Ariannin i'r rhestr o gyrchwledydd.

Gwnaed mân newidiadau eraill, ond heb eu nodi yma.

### **Crynodeb o newidiadau rhwng f3 a f2:**

Adran 2: Gweithgarwch cymwys

- Ychwanegwyd eglurhad i'r paragraff cyntaf am yr hyn y disgwylir i brifysgolion ei wneud o ran sicrhau ansawdd cyfleoedd.
- Ychwanegwyd dwy frawddeg i'r ail baragraff yn ymwneud â phrofiadau ymweld cysylltiedig.

Adran 4: Grantiau i fyfyrwyr

- Eglurhad o gymhwysedd ar gyfer grantiau teithio (mwy nag un gyrchwlad a thiriogaethau dibynnol)
- 

Adran 9: Dyrannu'r cyllid

- Newid yn y rheolau ar gyfer trosglwyddo cyllidebau: cael gwared ar y cyfyngiad o 20% ar gyfer yr alwad gyntaf.
- 

Adran 10: Adroddiadau gan y Darparwyr Addysg Uwch

- Diweddarwyd i gyfeirio at gyflwyniad yr offeryn adrodd drafft

Adran 18: Archwiliadau a monitro a gwerthuso

- Diwygio un pwynt bwled: newid 'oed' i 'dyddiad geni'
- Paragraff newydd ac aralleirio'r testun ar ôl dyfarnu cytundeb monitro a gwerthuso

Atodiad 5: Cytundeb grant symudedd

- Ychwanegu testun ar ddiwedd Erthygl 4 atodiad 1: "... ac i alluogi gwerthuso Rhaglen Cymru Fyd-eang Darganfod yn llawn

Atodiad 6: Canllawiau ar gyfer yr offeryn adrodd

- Atodiad newydd yn cynnwys y canllawiau a gyhoeddwyd wrth gyhoeddi fersiwn gyntaf yr offeryn adrodd.

### **Crynodeb o'r newidiadau rhwng f2 ac f1:**

Adran 5: Myfyrwyr ag Anghenion Arbennig

Yn yr ail baragraff, mae "...dim hwyrach nag 14 Chwefror yn y cylch ariannu." wedi'i newid i "...dim hwyrach nag 14 Chwefror 2020."

Adran 18: Archwiliadau a monitro a gwerthuso

Mae'r frawddeg "Bydd gwybodaeth am amseru a chwmpas y gweithgarwch hwn yn cael ei chyhoeddi yn nes ymlaen." wedi'i dileu, ac yn ei lle rhoddwyd cynnwys presennol yr adran.

## Cynnwys

|                                                                                |    |
|--------------------------------------------------------------------------------|----|
| Cyflwyniad                                                                     | 10 |
| 1. Cymhwysedd                                                                  | 10 |
| 2. Gweithgarwch cymwys                                                         | 10 |
| 3. Cyfnod y gweithgarwch                                                       | 11 |
| 4. Grantiau i fyfyrwyr                                                         | 12 |
| 5. Myfyrwyr ag Anghenion Arbennig                                              | 13 |
| 6. Dychwelwyr cynnar                                                           | 14 |
| 7. Ceisiadau                                                                   | 14 |
| 8. Dethol myfyrwyr                                                             | 14 |
| 9. Dyrannu'r cyllid                                                            | 15 |
| 10. Adroddiadau'r darparwyr addysg uwch                                        | 15 |
| 11. Cytundebau gyda myfyrwyr                                                   | 16 |
| 12. Diogelwch cyfranogwyr                                                      | 16 |
| 13. Adroddiadau'r myfyrwyr                                                     | 17 |
| 14. Cadw cofnodion                                                             | 17 |
| 15. Taliadau ac adenillion                                                     | 17 |
| 16. Taliadau i fyfyrwyr                                                        | 18 |
| 17. Cytundebau grant                                                           | 18 |
| 18. Cyfathrebu a Chysylltiadau                                                 | 18 |
| 19. Archwilio, monitro a gwerthuso                                             | 19 |
| 20. Apelio                                                                     | 20 |
| Atodiad 1: Tystysgrif Presenoldeb                                              | 22 |
| Atodiad 24 Ffurflen Apelio                                                     | 24 |
| Atodiad 27 Ffurflen Cefnogaeth Ychwanegol                                      | 27 |
| Atodiad 33 furflen Adnabod Ariannol                                            | 33 |
| Atodiad 35 Cytundeb Grant Symudedd Corfforol/Ffisegol                          | 35 |
| Atodiad 39 Cytundeb Grant Symudedd Rhithwir                                    | 39 |
| Atodiad 43 Bandiau ar gyfer Cyrchwledydd                                       | 43 |
| Atodiad <b>Error! Bookmark not defined.</b> Canllaw Defnyddio'r Offeryn Adrodd | 47 |

## Cysylltu â ni

British Council Cymru, 1 Ffordd y Brenin, Caerdydd CF10 3AQ

[GlobalWalesDiscover@BritishCouncil.org](mailto:GlobalWalesDiscover@BritishCouncil.org)





# Cyflwyniad

Mae rhaglen Cymry Fyd-eang Darganfod yn cynnig cyllid i fyfyrwyr israddedig o Gymru sy'n astudio gyda darparwyr addysg uwch yng Nghymru i fanteisio ar gyfleoedd i astudio, gweithio neu wirfoddoli am gyfnod byr mewn amrywiaeth o wledydd targed ledled y byd (cyfeirir at y rhain fel 'cyfleoedd symudedd' neu 'weithgareddau symudedd' o hyn ymlaen).

Mae hyd y cyfleoedd symudedd yma a chyfraddau'r grantiau ar eu cyfer wedi eu pennu ar lefel a fydd, gobeithio, yn annog myfyrwyr i gymryd rhan - yn enwedig y myfyrwyr hynny na fyddent yn gallu ystyried manteisio ar gyfleoedd symudedd heb gefnogaeth o'r fath.

## 1. Cymhwysedd

Croesewir ceisiadau am gyllid gan y darparwyr addysg uwch canlynol yng Nghymru:

- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Prifysgol Caerdydd
- Grŵp Llandrillo Menai
- Grŵp Colegau NPTC
- Prifysgol Abertawe
- Y Brifysgol Agored yng Nghymru
- Prifysgol De Cymru
- Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
- Prifysgol Glyndŵr Wrecsam

Ni fydd ceisiadau gan ddarparwyr addysg uwch y tu allan i Gymru, nag unrhyw sefydliadau nag unigolion eraill o Gymru, yn cael eu hystyried.

I fod yn gymwys i dderbyn cyllid rhaid i'r myfyrwyr israddedig o Gymru sy'n ceisio:

- fod yn wladolyn y Deyrnas Unedig neu fod â 'statws preswlydd sefydlog'
- fod wedi byw yng Nghymru am dair blynedd neu fwy cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academiaidd gyntaf eu cwrs cyfredol
- fod wedi bod yn byw yn y Deyrnas Unedig am dair blynedd cyn dechrau'r cwrs

Ni fydd myfyrwyr yn gymwys i dderbyn arian ar gyfer mwy nag un cyfle symudedd mewn unrhyw gylch ariannu.

## 2. Gweithgarwch cymwys

Mae cyllid ar gael i fyfyrwyr fanteisio ar gyfleoedd symudedd a nodwyd gan y darparwr addysg uwch, ei asiantau, ei bartneriaid neu ei fyfyrwyr i astudio, gweithio neu wirfoddoli dramor am gyfnod byr a lle mae'r darparwr addysg uwch wedi cymeradwyo a sicrhau ansawdd y symudedd yn ogystal â chytuno ar raglen weithgarwch ffurfiol.

Dylai'r darparwyr addysg uwch ddefnyddio eu profiad a'u barn broffesiynol i asesu, hyd eithaf eu gallu, a

yw'r darpar gyfleoedd yn debygol o arwain at symudedd buddiol, gwerthfawr a gwerth chweil. Dylech gysylltu â'r British Council mewn da bryd cyn i symudedd dechrau i drafod unrhyw bryderon o ran cymhwysedd. Ni fydd unrhyw gyfleoedd symudedd sy'n methu bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn cael eu hariannu ac eithrio achosion lle cysylltir â'r British Council ymlaen llaw i sicrhau ein bod yn cymeradwyo'r symudedd a geisir.

Gall symudedd wyneb yn wyneb bara am rhwng 2 wythnos ac 8 wythnos (o 14 diwrnod i 56 diwrnod), gan gynnwys yr amser teithio rhwng Cymru a'r wlad y mae'r myfyriwr yn teithio iddi. Telir am wythnosau rhannol ar sail oddeutu seithfed y gyfradd wythnosol berthnasol am bob diwrnod (gweler Tabl 2). Ni roddir cyllid ar gyfer unrhyw amser a dreulir yn y wlad y mae'r myfyriwr yn teithio iddi y tu hwnt i ystod y rhaglen weithgarwch y cytunwyd arni. Gall symudedd wyneb yn wyneb sy'n fyrach na 14 diwrnod fod yn gymwys am gyllid os yw'n gysylltiedig â symudedd arall ac felly'n creu un symudedd cydlynol sy'n para am gyfanswm o 14 diwrnod neu ragor. Er enghraifft, symudedd astudio bio-cemeg am 10 diwrnod a ddilynir gan symudedd gweithio mewn labordy am 10 diwrnod.

Rhaid i'r symudedd wyneb yn wyneb gael ei gynnal mewn lleoliad heblaw sefydliad cartref y myfyriwr (gan gynnwys unrhyw gampws tramor sydd gan ei ddarparwr addysg), ac yn un o'r gwledydd a restrir yn Nhabl 2 (gweler "Grantiau i Fyfrwyr").

Ers 2021 gall myfyrwyr fanteisio ar gyfleoedd symudedd rhithwir. Mae gofyn i gyfleoedd symudedd rhithwir bara am gyfnod arwyddocaol - dim byrrach na deg diwrnod gwaith hyd at uchafswm o wyth wythnos waith. Gellir bod yn hyblyg ynghylch yr amodau hyn os cyflwynir cais i'r British Council cyn gwneud y trefniant. Ni chaniateir i sefydliadau wario mwy na chyfanswm o £15,000 ar gyfleoedd symudedd rhithwir.

### 3. Cyfnod y gweithgarwch

I fod yn gymwys i dderbyn cyllid yn y cylch ariannu yma, mae gofyn fod y symudedd yn dechrau ar ôl 1 Awst 2021, ac yn gorffen cyn 31 Awst 2022. Mae Tabl 1 isod yn cynnwys esiamplau o sut y caiff hyd symudedd ei fesur yn ogystal ag esiamplau o gyfleoedd symudedd a fyddai'n gymwys (ac yn anghymwys) i dderbyn cyllid yn ystod y cylch ariannu cyntaf yma.

**Tabl 1: Hyd symudeddau a'u cymhwysedd (enghreifftiol)**

| DECHRAU'R SYMUDEDD | DIWEDD Y SYMUDEDD | HYD Y SYMUDEDD | STATWS    | SYLWADAU                                                               |
|--------------------|-------------------|----------------|-----------|------------------------------------------------------------------------|
| 4 Medi 2021        | 9 Hydref 2021     | 5 wythnos      | Cymwys    | Mae'r symudedd yn digwydd o fewn cyfnod y gweithgarwch                 |
| 12 Gorffennaf 2022 | 23 Awst 2022      | 6 wythnos      | Cymwys    | Mae'r symudedd yn digwydd o fewn cyfnod y gweithgarwch                 |
| 22 Awst 2022       | 26 Medi 2022      | 6 wythnos      | Anghymwys | Mae'r symudedd yn gorffen ar ôl dyddiad olaf y cylch ariannu (31 Awst) |

## 4. Grantiau i fyfyrwyr

Bydd gweithgareddau symudedd wyneb yn wyneb cymwys yn cael eu hariannu drwy grant ar gyfer **Costau Byw** (sy'n cael ei gyfrif ar sail wythnosol), a grant ar gyfer **Costau Teithio**.

Mae'r grant yn cynrychioli cyfraniad tuag at y costau paratoi yn ogystal â chostau gwireddu'r symudedd, a gellir ei ddefnyddio i dalu unrhyw gostau rhesymol sy'n deillio o hynny. Er engraifft: teithebau, taliadau am frechiadau, taliadau cofrestru, taliadau rhaglen, cludiant i'r maes awyr yn y Deyrnas Unedig ac yn ôl drachefn, costau llety, prydau bwyd, teithio yn y wlad lle cynhelir y symudedd. Ni fydd y British Council yn disgwyl i fyfyrwyr ddarparu talebau fel tystiolaeth o'r costau hyn.

Telir grantiau ar gyfer gweithgarwch symudedd rhithwir fel un cyfandaliad - hyd at uchafswm o £1000 fesul myfyriwr fesul cyfle symudedd – i dalu costau'r rhaglen symudedd rhithwir yn unig. Bydd angen cael caniatâd ymlaen llaw gan y British Council cyn y gellir defnyddio arian rhaglen Cymru Fyd-eang Darganfod ar gyfer unrhyw gostau cysylltiedig eraill - fel offer neu feddalwedd.

Telir y Costau Byw a nodir yn Nhabl 2 yn unol â'r amodau ar gyfer cyrchwlad y symudedd. Rhennir cyrchwledydd i ddau grŵp: Grŵp 1 (costau byw uchel a chanolig) a Grŵp 2 (costau byw is). Amlinellir y cyfraddau a roddir isod. Gweler Atodiad 7 ar gyfer rhestr o'r gwledydd ym mhob band.

**Tabl 2: Costau Byw ar gyfer Cyfleoedd Symudedd Wyneb yn Wyneb**

| BAND | CYFRADD WYTHNOSOL (£) | CYFRADD DDYDDIOL (£) |
|------|-----------------------|----------------------|
| 1    | 210                   | 30                   |
| 2    | 195                   | 27                   |

Mae cyfnod y symudedd sy'n gymwys am gyllid Costau Byw yn cynnwys: diwrnod ar gyfer y daith o'r Deyrnas Unedig, diwrnod ar gyfer y daith yn ôl i'r Deyrnas Unedig, a holl gyfnod y rhaglen weithgarwch y cytunwyd arno.

Caiff y Costau Teithio a ddangosir yn Nhabl 3 eu talu yn ôl y wlad lle cynhelir y symudedd:

**Tabl 3: Costau Teithio ar gyfer Cyfleoedd Symudedd Wyneb yn Wyneb**

| GRŴP | GWLEDYDD          | CYFRADD (£) |
|------|-------------------|-------------|
| A    | 80km – 2,999km    | 350         |
| B    | 3,000km – 3,999km | 600         |
| C    | 4,000km – 7,999km | 900         |
| D    | 8,000km +         | 1200        |

Defnyddiwch [Google Maps](https://www.google.co.uk/maps) i gyfrifo'r pellter. Bydd angen i chi ddilyn y camau isod:

1. Cliciwch fotwm dde eich llygoden ar eich man cychwyn.
2. Dewiswch 'Measure distance'.
3. Cliciwch ar eich cyrchfan i greu llwybr taith i'w fesur.

Os nad yw'r symiau uchod yn cynnwys y costau teithio ar gyfer cyrchwlad/cyrchfan penodol, cysylltwch â'r British Council gyda dadansoddiad o'r costau.

Ar ddiwedd ei symudedd, bydd pob myfyriwr yn cyflwyno Tystysgrif Presenoldeb i'w sefydliad addysg cartref (Atodiad 1). Bydd gofyn i gynrychiolydd o'r sefydliad lle cynhaliwyd y symudedd lofnodi'r dystysgrif yn y wlad honno i ddangos fod y symudedd wedi ei gwblhau. Cyfrifoldeb darparwr addysg uwch y myfyriwr yw'r hysbysiad preifatrwydd ar gyfer y Dystysgrif Presenoldeb.

Wrth gyflwyno Adroddiad Terfynol i'r British Council yn nodi fod y symudedd yn gymwys, mae'r darparwr addysg uwch yn cadarnhau fod y Dystysgrif Presenoldeb wedi ei llenwi'n gywir a bod y symudedd wedi'i gwblhau.

Ni fydd cyfleoedd symudedd wyneb yn wyneb mewn mwy nag un wlad yn cael eu hariannu drwy'r rhaglen hon y tu hwnt i'r lefel yma; hynny yw, mae pob symudedd wyneb yn wyneb yn gymwys i dderbyn un grant teithio'n unig. O ran cyfleoedd symudedd wyneb yn wyneb cysylltiedig, cyfradd gwlad y symudedd cyntaf fydd y gyfradd berthnasol, fel y cofnodir yn y Dystysgrif Presenoldeb wedi'i lofnodi (Atodiad 1).

Mae'r cyfraddau teithio ar gyfer y gwledydd yn Nhabl 3 hefyd yn berthnasol i unrhyw un o diriogaethau dibynnol (neu ranbarthau tebyg) y gwledydd hynny. Er enghraifft, bydd cyfleoedd symudedd wyneb yn wyneb i'r Ynys Las, Guam a'r Azores yn gymwys ar gyfer yr un costau teithio a byw a nodir ar gyfer Denmarc, Unol Daleithiau America a Phortiwgal yn y drefn honno.

## 5. Myfyrwyr ag Anghenion Arbennig

Mae grantiau cymorth ychwanegol ar gael i fyfyrwyr sydd ag anghenion arbennig sy'n arwain at gostau ychwanegol, sy'n golygu na fyddai'n bosib iddynt gymryd rhan yn y rhaglen heb gymorth ychwanegol.

Rhaid cyflwyno ceisiadau ar gyfer y grantiau hyn drwy law'r darparwr addysg uwch gan ddefnyddio'r ffurflen yn Atodiad 3. Dylid cyflwyno'r cais i'r British Council **8 wythnos** cyn dyddiad cychwyn y symudedd a dim hwyrach na **14 Chwefror 2022**. Os nad yw'n bosib ateb y gofynion yma am unrhyw reswm, cysylltwch â'r British Council cyn gynted â phosib. Ni allwn warantu y bydd pob cais yn cael ei ariannu, ond byddwn yn ceisio ariannu cynifer â phosib, a byddwn yn tynnu ar ein profiad o lefel y galw yn yr alwad gyntaf wrth ariannu'r ail alwad.

Bydd gofyn i fyfyrwyr sy'n gwneud cais am gefnogaeth ychwanegol ddarparu manylion eu costau disgwylidig. Bydd y rhain yn amodol ar broses gymeradwyo'r British Council. Bydd angen i'r buddiolwyr ddarparu adroddiad ariannol yn dangos y gwir gostau gyda thalebau o fewn **30 diwrnod** i orffen y symudedd. Os na chyflwynir yr adroddiad mewn pryd bydd unrhyw Gymorth Ychwanegol a delir yn cael ei ystyried yn gyllid anghymwys.

Rhaid i unrhyw geisiadau am gymorth ychwanegol gael eu cyflwyno i'r British Council gan y darparwr

addysg uwch ar ran y myfyriwr. Cyfrifoldeb darparwr addysg uwch y myfyriwr yw'r hysbysiad preifatrwydd ar gyfer y Dystysgrif Presenoldeb. Bydd y wybodaeth a gyflwynir yn y Cais am gefnogaeth ychwanegol yn cael ei asesu i sicrhau fod grantiau cymorth ychwanegol yn cael eu rhannu mewn modd teg a chyfiawn sy'n diogelu pobl â nodweddion gwarchodedig.

Bydd adroddiadau Interim a Therfynol (gweler Adran 10 - Adroddiadau'r darparwyr addysg uwch) yn cynnwys adran i gofnodi/nodi pob myfyriwr sy'n cymryd rhan sydd ag anghenion arbennig, boed iddynt wneud cais am gymorth ychwanegol neu beidio.

## 6. Dychwelwyr cynnar

Os bydd myfyriwr yn dychwelyd adref heb gyflawni gofynion sylfaenol cyfnod ei symudedd, er enghraifft oherwydd salwch difrifol neu amgylchiadau eithriadol eraill, mae'n bosib y bydd y British Council yn cytuno y bydd y myfyriwr yn cael cadw'r arian ar gyfer cyfnod y symudedd. Mae'n hanfodol fod y darparwyr addysg uwch a'r myfyrwyr sy'n cymryd rhan yn y symudedd yn sicrhau fod yr yswiriant angenrheidiol ganddynt.

Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r darparwr addysg uwch hysbysu'r British Council yn ysgrifenedig yn syth ar ôl i'r myfyriwr ddychwelyd. Yna bydd y British Council yn rhoi gwybod i'r darparwr addysg uwch pa dystiolaeth sydd angen ei gyflwyno (e.e. llythyr gan ddoctor os oes salwch) fel y gellir ystyried y cais. Bydd pob penderfyniad ynglyn â dychwelwyr cynnar yn cael ei wneud fesul achos unigol.

## 7. Ceisiadau

Oherwydd y cyfyngiadau ar deithio rhyngwladol yn 2020, mae ceisiadau wedi cael eu cario drosodd i 2021 ac felly nid oes disgwyl i sefydliadau ail-geisio am gyllid. Mae'r ceisiadau a gyflwynwyd gennych yn 2020 yn ddilys ar gyfer 2021.

Nid oedd angen nodi'r cyrchwledydd penodol wrth gyflwyno'r cais.

Gan mai prosiect peilot yw hwn anogwyd darparwyr addysg uwch i seilio eu ceisiadau ar ddisgwyliadau realistig am sut y byddent yn defnyddio'r arian. Os bydd y British Council yn derbyn gormod o geisiadau wedi'r alwad yma, mae'n bosib y byddwn yn cymedroli'r ceisiadau wrth weinyddu'r cam dyrannu cychwynnol. Ond, bydd cyfle i chi adrodd am gynnydd mewn gweithgarwch yn nes ymlaen yn ystod y cylch gweithredu (gweler Adran 10 - Adroddiadau'r darparwyr addysg uwch). Byddwn yn anelu i gefnogi cymaint â phosib o weithgarwch ychwanegol yr adroddir amdano yn y modd hwn.

## 8. Dethol myfyrwyr

Rhaid i'r broses o ddethol myfyrwyr gan ddarparwyr addysg uwch, yn ogystal â'r drefn ar gyfer dyfarnu grantiau iddynt, fod yn deg, yn dryloyw a rhesymegol; rhaid dogfennu'r broses a sicrhau fod y cyfan ar gael i'r holl bartïon sy'n rhan o'r broses ddethol.

Dylai pob cam o'r broses ddethol roi blaenoriaeth i fyfyrwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, a ddiffinir fel a ganlyn:

- Yn byw gyda'u rhieni: yn derbyn Grant Dysgu Llywodraeth Cymru o £5,930 neu fwy; neu

- Ddim yn byw gyda'u rhieni: yn derbyn Grant Dysgu Llywodraeth Cymru o £6,947 neu fwy.

Ni fydd targed ffurfiol gyda ni ar gyfer y gyfran o fuddiolwyr o gefndiroedd o'r fath. Ond, gofynir i ymgeiswyr anelu i sicrhau fod o leiaf 25% o'r myfyrwyr yn dod o'r grŵp penodol yma.

Bydd gofyn i ymgeiswyr nodi pa gamau y byddant yn eu cymryd i hyrwyddo'r cyfleoedd sy'n cael eu hariannu drwy'r grant i fyfyrwyr o'r cefndir yma. Bydd gofyn hefyd i ymgeiswyr nodi natur cefndir economaidd-gymdeithasol eu myfyrwyr yn eu hadroddiadau interim a therfynol.

## 9. Dyrannu'r cyllid

Bydd y British Council yn dyrannu arian y rhaglen mewn modd teg a thryloyw. Ein nod yw galluogi cymaint â phosib o fyfyrwyr i elwa ar raglen Cymru Fyd-eang Darganfod. Yn dibynnu ar nifer y ceisiadau a dderbynir, mae'n bosib y gellir dyfarnu Cytundebau Grant sy'n llai na'r swm y gwnaed cais amdano. Bydd cyllideb y grant yn cael ei ddyrannu ar sail yr ystyriaethau canlynol:

- cyfanswm y gyllideb gyffredinol ar gyfer grantiau;
- nifer y ceisiadau cymwys a dderbynir gan y British Council;
- y cyfraddau grant a bennwyd gan y British Council;
- nifer y gweithgareddau symudedd y derbyniwyd adroddiad interim amdanynt (gweler Adran 10)
- reported at interim report (see section 10)

Telir y grant Costau Byw i'r myfyriwr gan y darparwr addysg uwch yn ôl y cyfraddau priodol a ddangosir yn **Nhabl 2**. Telir y grantiau Costau Teithio ar sail pellter y gyrchwlad o Gymru.

## 10. Adroddiadau'r darparwyr addysg uwch

O bryd i'w gilydd bydd gofyn i sefydliadau gymryd rhan mewn ymgynghoriadau gyda'r British Council a'n partneriaid monitro a gwerthuso. Yn ogystal â hynny, bydd dau brif gam adrodd ar gyfer pob gweithgarwch: Adroddiad Interim ac Adroddiad Terfynol. Rydym yn darparu offeryn adrodd Cymru Fyd-eang Darganfod (cyhoeddwyd fersiwn 1 ym mis Medi 2019) i helpu darparwyr addysg uwch gyda'r broses o gofnodi a rheoli gweithgareddau symudedd a chyllidebau. Byddwn yn cyhoeddi fersiynnau wedi'u diweddaru yn ôl y gofyn, ac mae'n debygol mai'r offeryn adrodd fydd sail y drefn adrodd ar gyfer yr adroddiadau interim a therfynol. Yn achlysurol byddwn yn gofyn i'r darparwyr addysg uwch gyflwyno'r 'grynoded' sy'n rhan o'r offeryn adrodd – i roi ciplun anhysbys i ni o weithgarwch y symudedd sy'n digwydd ar y pryd. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Adroddiadau Interim yw: **17:00 Dydd Mawrth 1 Mawrth 2022**. Rhaid i'r Adroddiad Interim nodi'r holl weithgareddau a ariennir sydd wedi eu cyflawni'n barod, ac unrhyw weithgareddau y disgwylir eu cynnal o fewn ffiniau'r Alwad yma.

Ni all gweithgarwch yr adroddir amdano yn yr Adroddiad Terfynol fod yn fwy na'r hyn a adroddwyd amdano yn yr Adroddiad Interim. Felly, mae'n bwysig fod yr Adroddiadau Interim yn cynnwys yr holl weithgarwch y mae disgwyl ei gyflawni yn ogystal â'r gweithgarwch a gyflawnwyd, hyd yn oed os yw'n uwch na gwerth eich Cytundeb Grant cyfredol.

Bydd dyraniad cyntaf yr arian grant yn cael ei adolygu ar y pwynt yma - ar sail yr adroddiadau interim a gyflwynir gan y darparwyr addysg uwch. Mae'n bosib y gwneir taliad pellach o arian grant ar y pwynt yma. Hefyd, mae'n bosib y caiff arian ei adennill os yw cost y gweithgarwch yn llai na'r swm a nodwyd

wrth gyflwyno'r cais. Bydd newidiadau i Gytundebau Grant, taliadau ac adenillion yn cael eu gwneud fel bo'r angen.

Ni ddylai Adroddiadau Terfynol fod yn uwch na gwerth y Cytundeb Grant cyfredol, a rhaid eu cyflwyno erbyn **17:00 Dydd Llun 12 Medi 2022**. Rhaid i'r adroddiad ddangos fod yr holl weithgarwch a ariannwyd wedi cael ei gwblhau. Ni all y cyllid yr adroddir amdano yn yr Adroddiad Terfynol fod yn uwch na'r hyn a nodwyd yn y Cytundeb Grant neu'r llythyr Diwygio Grant.

## 11. Cytundebau gyda myfyrwyr

Cyn dechrau unrhyw symudedd, rhaid i'r darparwr addysg uwch sicrhau fod pob myfyriwr wedi arwyddo Cytundeb Grant Symudedd gyda'r darparwr addysg uwch (gweler Atodiad 5) i ddynodi'n ffurfiol ei fod yn derbyn y grant a chydabod yr oblygiadau sy'n deillio o'i dderbyn.

Mae'r templed yn amlinellu'r gofynion sylfaenol, a rhaid i'r darparwr addysg uwch ddefnyddio'r testun llawn ar gyfer cytundebau gyda myfyrwyr. Gall y darparwr addysg uwch ychwanegu at y testun safonol os yw'n dymuno. Dylid gofyn cyn gwneud unrhyw newidiadau i destun y Cytundeb Grant a rhaid sicrhau cytundeb gan y ddwy ochr ar ffurf hysbysiad ffurfiol drwy lythyr neu e-bost.

Mae'r darparwyr addysg uwch yn gweithredu fel Rheolwyr ar gyfer y rhan yma o siwrne'r myfyrwyr ac mae gofyn iddynt ddarparu'r hysbysiadau preifatrwydd perthnasol a sicrhau eu bod yn gwarchod hawliau'r cyfranogwyr a rhoi sylw i unrhyw geisiadau gan y myfyrwyr am eu hawliau o ran y grant. Mae'n rhaid cadw'r cytundeb fel cofnod o'r symudedd. Os nad yw'r darparwr addysg uwch yn cadw copi caled neu electronig wedi'i lofnodi o'r cytundeb gall y British Council adennill y grant drwy archwiliad yn y dyfodol. Mae copïau wedi eu sganio o ddogfennau gyda'r llofnodion gwreiddiol yn dderbyniol at ddibenion archwilio.

## 12. Diogelwch cyfranogwyr

Rhaid i'r darparwyr addysg uwch sicrhau fod ganddynt weithdrefnau a threfniadau mewn lle i hybu a gwarantu diogelwch a gwarchod myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn symudedd. Yn hyn o beth, rhaid sicrhau fod pob myfyrwr sy'n cymryd rhan yn rhaglen Cymru Fyd-eang Darganfod wedi ei yswirio yn erbyn y peryglon sy'n gysylltiedig â chyfranogi yng ngweithgarwch y rhaglen.

Nid yw'r British Council yn diffinio unrhyw fformat yswirio penodol ac nid yw'n argymhell unrhyw gwmnïau yswiriant penodol chwaith. Cyfrifoldeb y darparwr addysg uwch yw ffeindio'r polisi yswiriant mwyaf addas, ond mae'n rhaid cynnwys y meysydd canlynol:

- lle bo'n berthnasol, yswiriant teithio (gan gynnwys difrod neu golli bagiau);
- atebolrwydd trydydd parti (gan gynnwys, lle bo'n briodol, indemniad proffesiynol neu yswiriant cyfrifoldeb);
- damwain a salwch difrifol (gan gynnwys anallu parhaol neu dros dro);
- marwolaeth (gan gynnwys dychwelyd corff o dramor)

Cynghorir darparwyr addysg uwch i fonitro'r datblygiadau diweddaraf o ran Covid-19 a dilyn y canllawiau teithio sy'n cael eu pennu gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad a Llywodraeth Cymru bob amser.



## 13. Adroddiadau myfyrwyr

Bydd gofyn i bob myfyriwr sy'n cymryd rhan gwblhau a chyflwyno adroddiad terfynol cyn **17:00 Dydd Llun 12 Medi 2022**. Gall methu â chyflwyno adroddiad terfynol erbyn y dyddiad cau yma arwain at adennill yr arian perthnasol yn llawn neu'n rhannol (gweler hefyd Adran 6 'Dychwelwyr Cynnar').

Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau monitro a gwerthuso drwy gwblhau arolygon cyn cychwyn ar weithgarwch symudedd ac wedi cyflawni'r gweithgarwch, yn ogystal â chymryd rhan mewn cyfweiliadau ffôn yn un o amodau'r grant i gyfranogwyr. Yn ogystal â hyn, yn ystod y symudedd neu ychydig wedi cwblhau gweithgarwch y symudedd, mae'n bosib y gall y cyfranogwr dderbyn cais gan y British Council i gwblhau a chyflwyno adroddiad terfynol. Os bydd cyfranogwyr yn methu ateb y gofynion hyn, mae'n bosib y gellir gofyn iddynt ad-dalu (yn llawn neu'n rhannol) y cymorth ariannol a dderbyniwyd ganddynt. O bryd i'w gilydd, bydd y British Council a Wavehill Ltd yn cysylltu â'r darparwyr addysg a rhoi'r templedi monitro a gwerthuso perthnasol iddynt eu rhannu â'r myfyrwyr.

## 14. Cadw cofnodion

Rhaid i'r darparwr addysg uwch gadw'r holl geisiadau a'r Cytundebau Grant wedi'u llofnodi am ddeng mlynedd ar ôl dyddiad cau'r Cytundeb Grant perthnasol. Mae hyn yn cynnwys pob cais a chytundeb symudedd gyda myfyrwyr a dogfennau'n ymwneud â dosbarthu grantiau.

## 15. Taliadau ac Adenillion

Bydd taliadau grant gan y British Council yn cael eu talu i'r darparwr addysg uwch i'r cyfrif banc a nodwyd ar y ffurflen Adnabod Ariannol awdurdodedig (Atodiad 4) a gyflwynwyd gan y darparwr addysg uwch. Rhaid i'r darparwr addysg uwch hysbysu'r British Council yn syth os oes gwybodaeth anghywir neu wybodaeth sydd wedi dyddio ar y ffurflen, a gwneud hynny o leiaf **30 diwrnod** cyn y dyddiad y disgwylir unrhyw daliad neu adeniliad. Gall methu â gwneud hynny beryglu taliadau, a gall olygu bod yn rhaid i ddarparwr addysg uwch dalu ffioedd neu dalu colledion cyfnewid i'r British Council oherwydd bod y wybodaeth a ddarparwyd yn anghywir neu wedi dyddio.

Mae'r taliadau grant cyntaf wedi eu gwneud eisoes a bydd gwerth terfynol y taliad Grant a wneir ym mis Mawrth 2022 yn cael ei bennu gan y British Council ar sail deilliannau'r Adroddiad Interim. Os yw gwerth/cost gweithgarwch cymwys y Derbynnnydd yn is na swm y Grant, byddwn yn codi archeb adennill ar gyfer unrhyw arian Grant na wariwyd. Bydd gofyn i'r Derbynnnydd ddychwelyd y swm yna o fewn 30 diwrnod.

Yn sgil ddilysu data'r Adroddiad Terfynol gan y British Council neu ganfyddiadau archwilio anffafriol, bydd y British Council yn gofyn am ad-daliad o unrhyw ordaliad neu arian na adroddwyd amdano'n gywir. Ni fydd y British Council yn llunio cytundeb ariannu pellach gyda'r darparwr addysg bellach hyd nes yr ad-delir unrhyw symiau dyledus a nodir. Bydd unrhyw arian sy'n weddill gan y darparwyr addysg uwch o'r alwad ariannu gyntaf yn cael ei dynnu o'r taliadau a nodir uchod.

Gall taliadau a wnaed drwy raglen ariannu Cymru Fyd-eang Darganfod gael eu harchwilio gan y British Council, neu gan sefydliadau neu gyrff a benodwyd gan y British Council at y diben hwnnw. Bydd gofyn i'r darparwr addysg uwch gyflwyno tystiolaeth fod y grant wedi gadael cyfrif banc y darparwr addysg uwch neu fod y myfyriwr wedi ei dderbyn. Gall methu â gwneud hynny olygu y bydd y British Council yn cymryd camau i adennill y grant.

## 16. Taliadau i fyfyrwyr

Mae'n rhaid i'r darparwr addysg uwch dalu'r Cytundeb Grant Symudedd rhwng y myfyriwr a'r darparwr addysg uwch mewn un taliad o fewn 30 diwrnod i lofnodi'r Cytundeb gan y ddwy ochr, neu erbyn y diwrnod mae'r myfyriwr yn gadael y Deyrnas Unedig (pa un bynnag o'r rhain a ddaw gyntaf).

Mae cyfraddau'r Costau Byw (Tabl 2) a'r Costau Teithio (Tabl 3) yn berthnasol i bob symudedd wyneb yn wyneb, ac ni ddylai'r darparwr addysg uwch amrywio'r cyfraddau hyn wrth dalu grantiau i fyfyrwyr.

Bydd grantiau ar gyfer gweithgarwch symudedd rhithwir yn cael eu talu mewn un taliad hyd at gyfanswm o £1000 fesul myfyriwr fesul gweithgarwch symudedd – i dalu am gostau'r rhaglen symudedd rhithwir yn unig. Bydd angen cael caniatâd ymlaen llaw gan y British Council cyn y gellir defnyddio arian rhaglen Cymru Fyd-eang Darganfod ar gyfer unrhyw gostau cysylltiedig eraill - fel offer neu feddalwedd.

## 17. Cytundebau grant

Os yw'r wybodaeth a gyflwynir yn y llawlyfr yma'n wahanol i wybodaeth a gyflwynir yn y Cytundeb Grant, yna rhoddir blaenoriaeth i'r wybodaeth yn y Cytundeb Grant.

Rhaid i'r darparwr addysg uwch gadw copi electronig, copi gwreiddiol wedi'i arwyddo neu gopi wedi'i arwyddo'n electronig o'r Cytundeb Grant rhwng y darparwr addysg uwch â'r British Council ((gweler Adran 14 'Cadw Cofnodion).

Gellir arwyddo'r Cytundebau Grant a'r cytundebau symudedd rhwng y darparwr addysg uwch a'r cyfranogwr â llaw neu'n electronig, a chaniateir i un parti lofnodi'r dogfennau ac yna eu sganio at yr ail barti i'w llofnodi.

Mae'n rhaid i'r darparwr addysg uwch a'r cyfranogwr gadw copïau wedi eu llofnodi gan y ddau barti.

## 18. Cyfathrebu a Chysylltiadau

Testun parod i ddisgrifio'r rhaglen a chyfeirio at y partneriaid:

Wrth gyfeirio at y rhaglen yn eich deunydd cyfathrebu, gofynnwn i chi ddefnyddio'r testun parod canlynol i ddisgrifio rhaglen Cymru Fyd-eang Darganfod:

"Raglen symudedd rhyngwladol yw Cymru Fyd-eang Darganfod a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru, British Council Cymru a Chymru Fyd-eang i gynyddu nifer y myfyrwyr israddedig o sefydliadu Addysg Uwch Cymru sy'n manteisio ar gyfleoedd rhyngwladol dramor fel rhan o'u hastudiaethau. Nod y rhaglen yw dileu rhwystrau i gyfranogi drwy gynnig lleoliadau tymor byr a chymorth gyda chostau byw." Gofynnwn hefyd i chi enwi Llywodraeth Cymru, y British Council a Chymru Fyd-eang fel cefnogwyr y rhaglen.

## Logos

Gan fod eich prosiect yn cael ei ariannu gan raglen Cymru Fyd-eang Darganfod, gofynnwn i chi gynnwys logos Cymru Fyd-eang Darganfod, Llywodraeth Cymru a'r British Council ar unrhyw ddeunyddiau hyrwyddo y byddwch yn eu creu yn ychwanegol i'r deunyddiau yn ein cronfa o asedau.

E-bostiwrch [maiya.evans@britishcouncil.org](mailto:maiya.evans@britishcouncil.org) i gael y logos.

## Cronfa asedau

Fe fyddwn wedi danfon cronfa asedau Cymru Fyd-eang Darganfod atoch. Mae'n cynnwys amryw o asedau y gallwch eu defnyddio i hyrwyddo'r rhaglen gan gynnwys fideo byr, posterï a thaflenni. Os oes unrhyw broblem yn codi, ebostiwrch: [rosa.bickerton@britishcouncil.org](mailto:rosa.bickerton@britishcouncil.org)

## Cyfyngau cymdeithasol

Wrth ddefnyddio cyfyngau cymdeithasol, gofynnwn yn garedig i chi ddefnyddio'r hashnod #CymruFyd-eangDarganfod (a/neu #GlobalWalesDiscover) lle bo'n bosib, ac annog eich myfyrwyr i'w ddefnyddio pan fo'n briodol pan fyddant ar leoliad.

### ➤ Twitter

Tagiwch @LIC\_Addysg ac @BCouncil\_Wales lle bo'n bosib wrth drydar.

### ➤ Facebook

Tagiwch @LIC\_Addysg ac @BritishCouncilWales lle bo'n bosib wrth bostio ar Facebook.

### ➤ Instagram

Defnyddiwch yr hashnod #CymruFyd-eangDarganfod a/neu #GlobalWalesDiscover a chrybwyll Llywodraeth Cymru, British Council Cymru a rhaglen Cymru Fyd-eang.

## Y Wasg

Mae rhwydd hynt i chi baratoi eich datganiad eich hun i'r wasg ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod gweithgarwch y rhaglen. Gwnewch yn siwr eich bod yn defnyddio'r testun parod wrth ddisgrifio rhaglen Cymru Fyd-eang Darganfod a chydabod cefnogaeth Llywodraeth Cymru, British Council Cymru a rhaglen Cymru Fyd-eang.

## Digwyddiadau

Os byddwch yn cynnal digwyddiadau i gyd-fynd â'r rhaglen, cofiwch roi gwybod i ni fel y gallwn helpu drwy hyrwyddo'r digwyddiadau ar ein sianeli lle bo'n briodol. Byddai'n wych petai modd i ni fynychu digwyddiadau o'r fath a chael cyfle i'w hannerch.

## 19. Archwilio, monitro a gwerthuso

Disgwylir fod yr adroddiadau interim a therfynol yn adrodd, fan lleiaf, am yr elfennau canlynol ar gyfer pob symudedd:

- Enw'r sefydliad sy'n anfon
- Enw'r gyrchwlad

- Math o symudedd (astudio/gweithio/gwirfoddoli)
- Enw'r sefydliad lle cynhelir y symudedd
- Dyddiad dechrau'r symudedd
- Dyddiad gorffen y symudedd
- Hyd y symudedd
- Costau teithio
- Costau byw
- Swm ar gyfer gofynion anabled
- Enw'r myfyriwr
- Rhif Adnabod Unigryw'r Myfyriwr (HUSID)
- Rhywedd
- Dyddiad geni
- Ethnigedd
- Pwnc y cwrs a astudir yn y sefydliad cartref
- Lefel y cwrs a astudir yn y sefydliad cartref
- Blwyddyn astudio yn y sefydliad cartref
- Astudio'n llawn amser neu'n rhan amser
- Myfyriwr yn byw gartref / ddim yn byw gartref (os yw'n hysbys)
- Faint o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru mae'r myfyriwr yn ei dderbyn (os yw'n hysbys)
- Yn preswyllo yng Nghymru (h.y. yn bodloni'r meini prawf ar gyfer bod yn fyfyrwr cymwys a welir yn Adran 1 y llawlyfr yma)

Bydd data dienw yn cael ei rannu gyda Wavehill Ltd, ein partner ar gyfer monitro a gwerthuso

Gellir rhanu'r rhifau adnabod unigryw'r myfyrwyr (HUSID) gyda'r Asiantaeth ar gyfer Ystadegau Addysg Uwch (HESA) i alluogi casglu data ehangu cyfranogiad dienw am gohort y symudedd.

Mae'r British Council wedi apwyntio Wavehill Ltd i gynnal y gwaith monitro a gwerthuso hirdymor ar gyfer rhaglen Cymru Fyd-eang Darganfod. Bydd Wavehill yn cysylltu â'r darparwyr addysg uwch o bryd i'w glydd i drafod eu rhan yn y broses.

Bydd gofyn defnyddio'r offeryn adrodd a gyhoeddwyd gyntaf gan y British Council ym mis Medi 2019 i gyflwyno'r wybodaeth am symudedd a gynhwysir yn yr adroddiadau interim a therfynol. Byddwn yn darparu fersiwn wedi'i ddiweddarau o'r offeryn adrodd yn Hydref 2021. Mae'n bosib fod yr offeryn adrodd yn cynnwys elfennau ychwanegol i'r rhai a nodir yn y rhestr uchod.

## 20. Apelio

Os ydych yn dymuno apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan y British Council mewn perthynas â'ch cais am gyllid neu ddyfarniad grant, mae'n rhaid i chi ddilyn y weithdrefn apelio isod.

